# Delio â data

Wrth ymchwilio i brojectau, yn aml rhaid delio gyda data. Rwyt ti'n gwybod, pethau fel ystadegau, mesuriadau, rhifau neu ymatebion holiadur. Ac mae'n rhaid delio gyda mwy a mwy o'r math yma o wybodaeth drwy'r adeg. Does dim modd cael brecwast hyd yn oed heb ddod wyneb yn wyneb â llwyth o ddata.

Er mwyn cyflwyno data mewn project, mae angen trefnu, asesu, a dadansoddi'r data crai. Mewn geiriau eraill, ei dacluso a'i dwtio. Ond sut mae gwneud hynny?

Wel, yn gyntaf rhaid deall bod 'na ddau brif fath o ddata – data meintiol a data ansoddol.

Mae data meintiol yn ymwneud â maint, neu rifau, ac yn cael ei gynhyrchu drwy gymryd mesuriadau.

Ar gyfer holiadur, mae angen gofyn cwestiynau caeedig i gynhyrchu data meintiol. Cwestiynau gydag opsiynau pendant yw cwestiynau caeedig, hynny yw ateb sy'n rhif yn unig, atebion ‘ie’ a ‘nage’, neu ‘gwir’ a ‘gau’. Felly, os wyt ti'n gofyn, “Sawl awr wyt ti’n treulio ar-lein bob wythnos?” rhaid i’r ateb fod yn rhif.

Wel, does dim rhaid iddo fod - gelli di ateb bod dy Anti Beti yn methu stopio bwyta bisgedi, ond wedyn, dydyn ni ddim wir yn trafod yr un peth.

Ar ôl casglu data meintiol, mae modd ei gyflwyno ar ffurf tabl neu graff. Ond mae hi dal yn bwysig casglu, cyfuno a chrynhoi'r data. Ac er mwyn gwneud hynny, mae angen deall cyfartaleddau, hynny yw - cymedr, canolrif a modd.

I gyfrifo'r cymedr, adia'r rhifau at ei gilydd, yna rhanna'r cyfanswm gyda nifer y gwerthoedd.

Ystyr canolrif yw y rhif yn y canol. Os wyt ti'n rhoi’r holl ganlyniadau mewn trefn o’r lleiaf i’r mwyaf, y canolrif yw’r rhif reit yn y canol. Hawdd.

Ac ystyr modd yw'r rhif sy'n ymddangos amlaf – neu’r un does dim modd ei anwybyddu.

Mae'r math arall o ddata, sef data ansoddol, yn ymwneud ag ansawdd. Dyw ansawdd ddim yn golygu pethau da neu ddrwg fan hyn. Mae’n golygu unrhyw beth sy’n bosibl ei deimlo neu ei ddisgrifio.

Mae data ansoddol yn cael ei gynhyrchu trwy ofyn cwestiynau agored. Cwestiynau sy’n cychwyn sgwrs yw cwestiynau agored. Os wyt ti'n gofyn i rywun, “Sut mae’r gerddoriaeth yma’n gwneud i ti deimlo?” wel, gall yr ateb fod yn unrhyw beth.


© Hawlfraint BBC

Efallai cei di dim ond ateb un gair gan rai pobl. Wedyn eraill yn siarad yn ddi-baid.

Mae data ansoddol yn anoddach i'w brosesu. Dywed dy fod ti wrthi'n asesu sut mae pobl yn teimlo am ffatri newydd sy'n cael ei hadeiladu yn yr ardal. Bydd rhaid darllen drwy'r holl atebion cyn dod o hyd i ffordd i'w crynhoi nhw.

Gallet ti ysgrifennu, "Roedd y mwyafrif yn hapus oherwydd bydd y ffatri'n creu swyddi i bobl leol, ond roedd 20% yn poeni am lygredd."

Ac efallai bydd modd crynhoi rhai agweddau o'r atebion yn rhai 'ie neu nage'. Gallet ti wedyn ddadansoddi'r atebion fel data meintiol.

Boed yn ddata ansoddol neu'n ddata meintiol, drwy ddod i ddeall y gwahaniaeth rhwng y ddau, a chyflwyno'r data'n glir ac yn gywir, fydd ddim rhaid i ti ddioddef gwrando am Anti Beti a'i bisgedi.

 © Hawlfraint BBC